## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 6 Medi 2006 am 9.30 y bore.

## PRESENNOL

Cynghorwyr S Thomas (Cadeirydd) J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, M Ll Davies, S A Davies, G C Evans, H H Evans, S Frobisher, D Hannam, K N Hawkins, T K Hodgson, T R Hughes, N Hugh-Jones, H Jones, M M Jones, G. Kensler ,P W Owen, N P Roberts, G O Rowlands, (sylwedydd) J A Smith, D A J Thomas, J. Thompson-Hill, M A Webster, C H Williams a R Ll Williams

## YN BRESENNOL HEFYD

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G. Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmer (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU ODDI WRTH

Cynghorwyr J Chamberlain-Jones, M German, I German, James Davies a Richard Jones

## 325 MATERION BRYS

**Cynghorydd B Blakeley**

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd B. Blakeley yn cymryd lle'r Cynghorydd D. Jones fel cynrychiolydd y Grŵp Llafur ar y Pwyllgor o heddiw ymlaen.

**Cyfarfodydd**

Mynegodd Aelodau bryder ynglŷn â'r ffaith bod cyfarfodydd eraill yn cael eu trefnu ar yr un diwrnod â'r pwyllgor cynllunio, a gwnaethpwyd cais i neilltuo diwrnod cyfan i'r pwyllgor cynllunio.

## 326 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus (dosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd a'r penderfyniadau y gofynnir i'r Pwyllgor eu gwneud.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) y dylid caniatáu argymhellion y Swyddogion fel y cynhwysir hwy yn yr adroddiad a gyflwynir gerbron, ac y dylid caniatáu neu wrthod cynllunio fel ag sy'n briodol ymhob achos dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Gynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysiad Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:-*

**(i) Caniatáu**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 30/2006/0426/PF | Codi ysgubor fel storfa i fwyd a phorthiant a chysgod i i stoc mewn tywydd garw .<br>**Tir yn y Gorlan Trefnant Dinbych**<br>**CANIATÁU** yn amodol ar wall teipograffyddol ar amod 2 "Cornel" |

| | |
|---|---|
| 42/2006/0742/PF | **Siaradwr o Blaid - Michael Peters**<br>Newid defnydd cyn gapel yn 4 annedd hunangynhwysol, adnewyddu annedd sy'n bodoli eisoes ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.<br>**Capel Bethel Ffordd Rhaeadr Dyserth Rhyl**<br>Penderfynwyd **RHOI** caniatâd cynllunio yn amodol ar yr ymgeisydd yn gyntaf yn cytuno ar rwymedigaeth dan Adran 106 Deddf Gynllunio 1990 i sicrhau ei fod yn darparu 1 uned tŷ fforddiadwy. "Dylid cadw" amod diwygiedig 3.<br>**Nodiadau i'r Ymgeisydd**<br>Nodyn Cyffredinol i'r Ymgeisydd yn ymwneud â charthffos gyhoeddus yn croesi'r safle. |
| 43/2006/0314/PO | **Siaradwr o Blaid - Mr W Evans**<br>Datblygu 0.03 hectar o dir drwy godi 1 annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.<br>**Bwthyn Tanrallt Tan yr Allt Prestatyn**<br>**Caniatáu** yn amodol ar ddiwygio amod 6 - dileu "er cymeradwyaeth awdurdod y priffyrdd"<br>**Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd**<br>Carthffrwd fudr yn unig ddylid ei ddraenio i'r garthffos gyhoeddus. Bydd angen i ddŵr arwyneb ddraenio i ffosydd cerrig neu, os oes un ar gael, i ffos/ddyfrffos gerllaw'r safle. |
| 43/2006/0462/PO | Datblygu 0.07 hectar o dir drwy godi annedd sengl i gynnwys y safle a mynedfa (cais amlinellol)<br>**Tir yn (rhan o ardd) 110 Ffordd Talargoch Prestatyn**<br>Caniatáu |
| 44/2006/0078/PF | **Siaradwr yn Erbyn – Michael Gibson**<br>(Cyhoeddodd y Cynghorydd G O Rowlands bod ganddo ddiddordeb yn y cais canlynol, a gadawodd y Siambr tra roedd y mater dan sylw.)<br>Codi 2 floc o anheddau gyda 16 annedd ac addasu'r fynedfa i gerbydau sydd yno eisoes<br>**Tir y ceir mynediad iddo drwy Ffordd Rhyl ger Mynwent Rhuddlan Ffordd Newydd Rhuddlan Rhyl**<br>*Penderfynwyd **RHOI** caniatâd cynllunio yn amodol ar yr ymgeisydd yn gyntaf yn cytuno ar rwymedigaeth dan Adran 106 Deddf Gynllunio 1990 i sicrhau ei fod yn darparu unedau tai fforddiadwy a thalu swm cyfnewidiol yn lle gofod agored ar y safle* |
| 44/2006/0812/PF | Newid defnydd llawr isaf annedd sydd yno eisoes i ddeintyddfa.<br>**Mona Villa Ffordd Rhyl Rhuddlan Rhyl**<br>**Caniatáu** yn amodol ar yr amod newydd canlynol :<br>"Er darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, mae'r caniatâd yn ymwneud â defnyddio'r adeilad fel Deintyddfa neu Feddygfa yn unig, ac nid unrhyw ddefnydd arall o fewn Dosbarth(iadau) D1 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref" |
| 46/2005/0918/PO | Datblygu 3.9ha o dir er defnydd swyddfa/diwydiant ysgafn (Dosbarth B1) ac adeiladu mynedfa newydd i gerddwyr/cerbydau (cais amlinellol)<br>**Cyn Gaeau Chwarae Pilkington Ffordd Glascoed Llanelwy**<br>*Penderfynwyd **Rhoi** caniatâd cynllunio yn amodol ar yr ymgeiswyr yn gyntaf yn cytuno ar rwymedigaeth dan Adran 106 o'r Ddeddf Gynllunio i dalu £90,000 fel swm cyfnewidiol ar gyfer darparu a/neu wella gofod agored yn Llanelwy wrth gwblhau'r rhwymedigaeth Adran 106.* |

46/2006/0358/PR

Manylion o safle, dyluniad a golwg allanol yr adeilad, modd cael mynediad a thirlunio a gyflwynwyd yn unol ag Amod 1 o ganiatâd cynllunio amlinellol Cyf. 46/2003/1078/PO (newid i'r cais canlynol y rhoddwyd caniatâd iddo eisoes Cyf. 46/2005/0383/PR) (Materion wedi eu cadw)
**Tir ger Summerhill Stryd Luke Llanelwy**
**CANIATAU**

01/2006/0380/PF

Manylion diwygiedig o waith trosi adeilad annedd, adeiladau allanol ac adeilad coets yn 5 annedd, cais y rhoddwyd caniatâd iddo eisoes dan god rhif 01.2005/0156/PF
**Plas Y Green Ffordd yr Wyddgrug Dinbych**
**Caniatáu** yn amodol ar wall teipograffyddol yn y Nodyn i'r Ymgeisydd "nythu"

02/2006/0708/PF

Dymchwel annedd sydd yno eisoes a chodi 2 annedd par ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.
**Bryn Ffordd Greenfield Rhuthun**
Caniatáu yn amodol ar amodau newydd
3. Ni ddylai unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl o dirlunio caled a meddal ar y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig, a dylai cynllun o'r fath gynnwys manylion parthed:
(a) holl goed, llwyni a llystyfiant arall ar y tir, manylion am unrhyw rai i'w cadw, a mesurau ar gyfer eu gwarchod yng nghwrs y datblygiad
(b) coed, llwyni, prysgoed neu lystyfiant a gynigir, gan gynnwys cadarnhad o rywogaethau, niferoedd a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu newydd;
(c) deunyddiau y bwriedir eu defnyddio ar y tramwyfeydd, llwybrau a mannau eraill ac arwynebau caled eraill;
(d) y gwaith symud pridd y bwriedir ei gynnal, graddio a phentyrru tir a newidiadau mewn lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrru hynny ar lystyfiant sy'n bodoli eisoes a thirffurf sydd o amgylch;
(e) safleoedd, dyluniad, deunyddiau a'r math o ffin a argymhellir
5. Dylid cynnal unrhyw waith plannu, hadu, gosod glaswellt, ffensio, codi wal neu unrhyw waith arall a nodir yn y manylion yn ystod y tymhorau plannu a hadu cyntaf wedi cwblhau'r datblygiad, a dylid sicrhau bod coed neu blanhigion newydd yn cael eu gosod yn ystod y tymor plannu nesaf os oes unrhyw goed neu blanhigion wedi'u tynnu neu wedi'u niweidio neu'n cael afiechyd o fewn pum mlynedd i'r datblygiad a dylid sicrhau bod y rhai newydd o'r un maint a'r un rhywogaeth
7. Ni ddylai unrhyw waith ddechrau ar y safle hyd nes bydd archwiliad am bresenoldeb ystlumod ac adar wedi'i gynnal ar y safle a'r adeiladau. Dylid cyflwyno canlyniadau'r archwiliad, ynghyd â mesurau osgoi rhesymol i ddelio gyda phresenoldeb ystlumod ac adar i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r mesurau yn ysgrifenedig cyn i'r datblygiad ddechrau.
*Rheswm: Er budd unrhyw rywogaethau wedi'u gwarchod sydd ar y safle*
**Nodiadau Diwygiedig i'r Ymgeisydd**
1. Carthffrwd fudr yn unig ddylid ei ddraenio i'r garthffos gyhoeddus. Bydd angen i ddŵr arwyneb ddraenio i ffosydd cerrig neu, os oes un ar gael, i ffos/ddyfrffos gerllaw'r safle.
**327** Nid yw rhoi caniatâd i'r cais cynllunio yn diystyru'r angen i gael trwydded ar wahân i unrhyw waith sy'n amharu ar rywogaethau wedi'u gwarchod

03/2005/0693/PR

**Siaradwr o Blaid - Paul Sedgewick**
Manylion o safle, dyluniad, golwg allanol, modd cael mynediad a thirlunio ar gyfer datblygiad 20 annedd y rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol iddo dan God Rhif 03/2004/0720/PO
**Bryn Derwen Ffordd Abaty Llangollen**
**CANIATAU Yn amodol ar y Nodyn newydd canlynol i'r ymgeisydd:**
Nodir bod y cais cynllunio amlinellol a'r materion wedi'u cadw a gyflwynwyd yn cyfeirio at garthffrwd yn cael ei gymryd i'r garthffos gyhoeddus. Gwnaethpwyd penderfyniad ar y ddau gais ar y sail hon a bydd unrhyw newidiadau i'r dull gwaredu carthffrwd yn gofyn am gyflwyno cais cynllunio pellach. Fodd bynnag, cadarnhawyd mai sicrhau bod y garthffrwd yn draenio i'r garthffos gyhoeddus yw'r unig ddewis derbyniol.

03/2006/0780/PF

**Siaradwr o Blaid - Rebecca Roberts**
Newid defnydd tir gofod agored i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl, codi wal gynnal a ffens pren gyda sgrin blanhigion
**Tir ger 1 Min y Coed Llangollen**
**CANIATAU**

07/2006/0406/PF

Codi annedd gweithiwr amaethyddol, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gosod tanc septig newydd
**Tir yng Nghae Rhif 9817 Tŷ Isa Dinam Llandrillo Corwen**
**CANIATAU** yn amodol ar:
**Amod Diwygiedig 2**
2. Er y manylion y rhoddwyd caniatâd iddynt, dylid sicrhau bod waliau allanol yr annedd y rhoddwyd caniatâd iddo yma yn cael eu gwneud allan o garreg naturiol a rendr, a dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gymeradwyo'r manylion yn ysgrifenedig cyn y gellid mynd rhagddi i'w hadeiladu, ac ni ddylid defnyddio unrhyw ddeunyddiau ac eithrio'r rhai sy'n cael eu cymeradwyo.

13/2006/0746/PC

**Siaradwr o Blaid - Mr Richard Thompson**
Cynllun diwygiedig ar gyfer cadw adeilad allanol (cais ôl-weithredol) a pharhau i ddefnyddio'r tir fel cwrtil preswyl.
**Ysgubor Llanerchgron Pwllglas Rhuthun**
**CANIATAU** yn amodol ar Swyddogion yn monitro'r safle'n ofalus

23/2006/0594/PF

Trosi ystafell arddangos ceginau/swyddfa yn fflat 1 lloft gyda pharcio a lle hamddena cysylltiol
**Pentre Kitchens Brookside Pentre Llanrhaeadr Dinbych**
**CANIATAU**

23/2006/0827/PF

Codi storfa ffrâm bortal dur ar gyfer offer a phorthiant.
**Fferm Glan Aber Llanrhaeadr Dinbych**
**CANIATAU**

**GWRTHOD:**

46/2006/0418/PF

Addasiadau mewnol ac allanol i annedd, ail-adeiladu'r strwythur yn y cefn ac addasiadau i'r siop gerllaw i greu mynedfa.
**Elwy Bank Stryd Fawr Llanelwy**
**GWRTHOD**
**Cymerwyd y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhellion y Swyddog, am y rheswm canlynol:**
Byddai ffurfio ac yna defnyddio'r fynedfa a gynigir wrth ddod ymlaen i'r briffordd gyhoeddus, oherwydd anhawster gweld cerbydau yn dod allan ac anhawster y cerbydau hynny hefyd o ran gweld eraill, yn debygol o achosi perygl ychwanegol i holl ddefnyddwyr y briffordd,

gan gynnwys cerddwyr a phobl mewn cerbydau, a byddai'n amharu ar lif traffig, gan fynd yn groes i Bolisi TRA 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a Nodyn Cyngor Technegol 18 – Polisi Cludiant a Chynllunio Cymru.

**Caniatâd Adeilad Rhestredig**

46/2006/0419/LB

Addasiadau mewnol ac allanol i annedd, ail-adeiladu'r strwythur yn y cefn ac addasiadau i'r siop gerllaw i greu mynedfa. (Cais Adeilad Rhestredig)
**Elwy Bank Stryd Fawr Llanelwy**
Caniatáu, yn amodol ar ymgynghori â CADW a dim gwrthwynebiad ganddynt

**Gohirio ar gyfer Ymweliad Safle**

44/2006/0177/PF

**Siaradwr yn Erbyn - Brian Williams**
(Cyhoeddodd y Cynghorydd P. Owen bod ganddo ddiddordeb yn y cais canlynol, a gadawodd y Siambr tra roedd y mater dan sylw.)
Trosi ysgubor wag yn annedd sengl
**Ysgubor yn Fferm Rhydyddauddwr Ffordd yr Abaty Rhuddlan Rhyl**
**(**Yn dilyn ystyried llythyr pellach gyda sylwadau oddi wrth Mr E B Williams Fferm Rhydyddauddwr)
**Gohirio ar gyfer Ymweliad Safle**
Gwnaeth yr Aelodau gais am estyn gwahoddiad i Mr. B. Williams siarad eto ar y cais pan gaiff ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Hydref.

44/2006/0178/LB

Yn dilyn ystyried llythyr pellach gyda sylwadau oddi wrth Mr E B Williams fel o'r blaen
Dymchwel yn rhannol, ac addasiadau allanol a mewnol i drosi ysgubor wag yn annedd sengl
**Ysgubor yn Fferm Rhydyddauddwr Ffordd yr Abaty Rhuddlan Rhyl**
**Gohirio ar gyfer Ymweliad Safle**

46/2006/0510/PF

Yn dilyn ystyried llythyr pellach gyda sylwadau oddi wrth Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Codi annedd sengl, un llawr i'w ddefnyddio fel ficerdy ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau
**Tir yn (rhan o'r ardd) The Deanery Ffordd Uchaf Dinbych Llanelwy**
**Gohirio ar gyfer Ymweliad Safle**
(Gwnaeth yr Aelodau gais am estyn gwahoddiad i'r Archeolegydd a'r Ecolegydd Sirol fynychu'r ymweliad safle)

**Gohiriwyd am y Rhesymau a Roddwyd**

02/2006/0247/PF

Yn dilyn ystyried adroddiad ar ymweliad safle ar 31 Awst, llythyrau pellach gyda sylwadau oddi wrth Gwasanaethau Datblygu; Asiant yr Ymgeiswyr; Deiseb gyda 200 o lofnodion; Dynlop Haywards (ar ran Somerfield); White Young Green (ar ran yr ymgeiswyr); CDN Planning (ar ran Y Co- Op)
Dymchwel adeiladau diwydiannol sydd yno eisoes, codi siop fwyd/dim bwyd 4126 metr sgwâr, gan gynnwys caffi, maes allanol gyda tho, adeiladau iard ar gyfer gwasanaethau cysylltiol a thanc taenellu a maes parcio cysylltiol (ymestyniad ar siop

gydag arwynebedd llawr gros 2745 metr sgwâr y rhoddwyd caniatâd iddi eisoes, cyfeirnod cais 02/2005/0333/PF)
**Safle gerllaw Lon Parcwr, Rhuthun**
**GOHIRIO** ar gyfer eglurhad pellach ar effaith hyn ar fasnach gan ystyried sylwadau hwyr a dderbyniwyd ar ran Co-Op a Somerfield. Mae ar Swyddogion angen cael cyngor pellach gan Roger Tym a Phartneriaid ar gynnwys llythyrau i sicrhau bod eu casgliadau yn parhau i fod yr un fath ag o'r blaen.

**327 APÊL DIFFYG PENDERFYNIAD DATBLYGIAD 4 TYRBIN GWYNT WERN DDU GWYDDELWERN**

Cyflwynwyd adroddiad yn ceisio safbwyntiau Aelodau ar y safiad a gymerwyd yn dilyn yr ymarfer ymgynghori yn ystod toriad yr haf.

Roedd amseriad y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiad ar yr achos yn golygu bod rhaid cysylltu â'r Aelodau yn ystod y toriad.

Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori ac yn gofyn am gadarnhad ffurfiol gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau yn cadarnhau'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog Cynllunio ar gais 6/2005/1453/PF sef, pe byddai'r pwyllgor wedi bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar y cais, byddai wedi* ***GWRTHOD*** *caniatâd cynllunio.*

**328 DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus yn nodi'r dyddiad y byddai ymweliadau safle yn digwydd.

***PENDERFYNWYD*** *y bydd ymweliadau safle cyn y pwyllgor nesaf yn digwydd ar 28 Medi 2006*

**329 EITEMAU ER GWYBODAETH**

Cyflwynwyd adroddiadau er gwybodaeth i Aelodau ar:

- Nodiadau Cyngor Technegol (TAN 1 a TAN 2) a Datganiad Polisi Cynllunio Interim 01/2006 – Tai
- Newid i'r systemau Rheoli Datblygiad yng Nghymru
- Hyfforddiant i Aelodau

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad er gwybodaeth*

**330 RHESTR CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus ei adroddiad ysgrifenedig (dosbarthwyd o flaen llaw) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio y gwnaeth ef benderfyniad arnynt dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1 Gorffennaf 2006 a 18 Awst 2006.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad*

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30 y prynhawn

***********